| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau.** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Penodi, ar gyfer y tymor swyddogol hwn, ddau aelod lleyg, annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethol ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod gan gynnwys unigolion sy'n annibynnol o'r Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Oherwydd treigl amser, a'r terfynau amser cyfreithiol ynghylch y cyfnod y gall Aelodau Annibynnol (Lleyg) wasanaethu, mae'n bryd erbyn hyn cael dau arall yn lle'r ddau Aelod Lleyg sy'n ymddeol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhelliad y Panel Penodiadau Arbennig yw mai'r ddau unigolyn sy'n cael eu hystyried yn fwyaf addas i eistedd fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau yw: -

1) Y Barnwr Ian Trigger (Barnwr Cylchdaith)
2) Steven Wayne Roberts (Gweinidog yr Efengyl)

## 4. Manylion yr Adroddiad

Bydd y Cyngor Llawn yn cofio, yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2012, y dirprwywyd y broses ddewis i Banel Penodiadau Arbennig, mae'r panel hwn yn cynnwys tri chynghorydd sir, un cynghorydd cyngor cymuned ac un aelod lleyg, ac, ar ôl cyfweld ymgeiswyr, mae yn awr yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor Llawn.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau hollol weithredol a chynrychiadol sy'n helpu i gynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau o gymorth i fod yn sylfaen i'r Cyngor wrth ymarfer ei ddyletswydd democrataidd.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol yn gosod cyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, gynnig y gyfradd hon i aelodau annibynnol.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae'n rhaid hysbysebu pob lle gwag am aelod annibynnol mewn o leiaf ddau bapur newydd yn cylchredeg yn yr ardal. Gwnaed hyn, a hefyd cafodd gwefannau cyflogaeth eu cynnwys er mwyn ymestyn allan i gynulleidfa mor eang â phosibl.

O ran yr aelod cymunedol a oedd yn eistedd ar y Panel Penodiadau Arbennig, ymgynghorwyd â phob cyngor tref a chymuned er mwyn ystyried penodi aelod cymunedol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does yna ddim costau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r penodiadau.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Ni nodwyd fod unrhyw risgiau ynghlwm wrth y penodiadau.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i bob awdurdod lleol sefydlu Pwyllgor Safonau.